YMCHWIL GYMDEITHASOL RHIF: 46/2016
DYDDIAD CYHOEDDI 13/07/2016

# Gwerthusiad Terfynol o Raglen ReAct 2008-2014

**Crynodeb [Gweithredol]**

## 1. Cefndir: rhaglen ReAct

1.1 Nod y Cynllun Gweithredu ar Ddiswyddiadau (ReAct) yw atal diweithdra hirdymor trwy ddarparu llwybrau i gyflogaeth i'r rhai sydd wedi colli gwaith yn ddiweddar neu sydd ar fin colli gwaith.

1.2 System sylfaenol y rhaglen yw: (1) grant (hyd at £2,500 i ddechrau, sy'n lleihau wedyn i £1,500) a delir i unigolion di-waith i ariannu, yn rhannol neu'n gyfan gwbl, hyfforddiant y maent yn ei ddilyn i wella'u cyfleoedd o fynd yn ôl i'r byd gwaith; (2) Cefnogaeth Recriwtio i'r Cyflogwr – grant (o hyd at £2,080 ac wedyn £3,000) i gyflogwyr er mwyn talu rhan o gyflogau unigolion di-waith y maent yn eu cyflogi o'r newydd; (3) Cefnogaeth Hyfforddi'r Cyflogwr - grant i gyflogwyr (o hyd at £1,000) i ariannu hyd at 70% sy'n lleihau wedyn i 50% o gost hyfforddi unigolion di-waith y maent yn eu recriwtio; (4) cefnogaeth i dynnu'r rhwystrau i hyfforddiant (yn ddiderfyn i ddechrau ac wedyn hyd at £200 (cymorth gofal plant hyd at £2,600)).

1.3 Cafodd tîm rheoli ReAct Llywodraeth Cymru gymorth gan sawl partner i gyflenwi'r rhaglen. Bu Gyrfa Cymru, gwasanaeth arweiniad ar yrfaoedd cenedlaethol Cymru, yn bwynt mynediad i'r rhaglen i unigolion ac yn ffynhonnell gyntaf o gyngor ar fathau o hyfforddiant a oedd yn debygol o gynnig y cyfle gorau i gael cyflogaeth newydd ac ar ddarparwyr hyfforddiant addas. Cydweithiodd ReAct â'r Ganolfan Byd Gwaith i ddarparu rhaglen gefnogaeth gynhwysfawr i unigolion di-waith – mae cefnogaeth ReAct yn ategu'r gwasanaethau a'r cynhyrchion a gynigir gan y Ganolfan Byd Gwaith. Cydweithiodd ReAct hefyd ag Undebau Llafur yn ystod cynlluniau diswyddo ar raddfa fawr er mwyn sicrhau bod yr holl weithwyr yn ymwybodol o'r gefnogaeth sydd ar gael, ac â'r Cynghorau Sgiliau Sector er mwyn sicrhau bod dyluniad a phrosesau cyflenwi'r rhaglen yn bodloni anghenion y diwydiant.

1.4 Cyflwynwyd ReAct ledled Cymru. Fe'i hariannwyd yn rhannol gan Gronfa Gymdeithasol Ewrop (ESF) a chyfrannodd y rhaglen at flaenoriaethau cyllido yr ESF ar gyfer ardaloedd Cydgyfeirio (Blaenoriaeth 2, Thema 1: 'Cynyddu Cyflogaeth a Mynd i'r Afael ag Anweithgarwch Economaidd') ac ar gyfer ardaloedd Cystadleurwydd (Blaenoriaeth 1: 'Cynyddu Cyflogaeth a Mynd i'r Afael ag Anweithgarwch Economaidd'). Mae'r gwerthusiad hwn yn canolbwyntio ar gyflenwi yn ystod Cyfnod Rhaglenni 2007-2013 y ESF.

## 2. Methodoleg

2.1 Yr hyn a gyfrannodd at y gwerthusiad terfynol o ReAct oedd:

| *Cyfraniad* | *Disgrifiad* |
|---|---|
| Arolwg cyflogwyr | Arolwg o 304 o gyflogwyr a gefnogwyd gan ReAct II |
| Arolwg cyfranogwyr | Cymerir data am 1,080 o gyfranogwyr ReAct II yn yr ardal Gydgyfeirio ac am 671 o gyfranogwyr ReAct II yn yr ardal Gystadleurwydd o Arolwg 2014 yr ESF o Bobl a Adawodd |
| Gwybodaeth reoli | Dadansoddiad o ddata rheoli a gafwyd yn ystod y gwaith o gyflenwi ReAct ac a dynnwyd o system rheoli gwybodaeth y rhaglen a'r adroddiad hawlio cyllid terfynol a archwiliwyd |
| Canfyddiadau rheolwyr a phartneriaid cyflenwi | Safbwyntiau ar ReAct yn deillio o 14 o gyfweliadau cynhwysfawr â swyddogion y llywodraeth a chynrychiolwyr sefydliadau partner |
| Cyflogwyr | 10 trafodaeth gynhwysfawr â chyflogwyr i ychwanegu at ddata ystadegol o'r arolwg cyflogwyr meintiol |
| Darparwyr hyfforddiant | 10 trafodaeth gynhwysfawr i ddarparu safbwyntiau darparwyr ar ReAct II |
| Canfyddiadau gwerthusiad interim | Tystiolaeth eilaidd i hysbysu casgliadau gwerthuso terfynol. Cymharu cyfnodau gwerthuso cynharach a hwyrach lle bo'n bosibl |
| Dadansoddiad o effaith a chostau a manteision | Amcangyfrifiad o effeithiau economaidd ehangach ReAct II a'i gwerth am arian |

## 3. Canfyddiadau allweddol

3.1 Ar y cyfan mae ReAct yn llwyddiannus yn yr hyn y mae'n ceisio ei wneud – sef cefnogi unigolion di-waith a rhoi iddynt hyfforddiant addas ar sgiliau sy'n gysylltiedig â'r galw economaidd am sgiliau; ac i roi cymhorthdal i gyflogwyr i'w helpu i recriwtio unigolion di-waith a rhoi rhagor o hyfforddiant iddynt, a'u cadw mewn gwaith cynaliadwy.

### Targedau ac allbynnau

3.2 Cefnogodd y rhaglen 26,498 o gyfranogwyr a 2,085 o weithwyr. Cyflawnwyd 19,174 o gymwysterau.

3.3 Pwynt hanfodol i'w nodi yw bod 'targedau' gwreiddiol y rhaglen braidd yn fympwyol oherwydd nad oedd modd darogan ymlaen llaw nifer a phroffil demograffig y bobl a fyddai'n colli eu gwaith ac a fyddai'n ceisio cymorth ReAct. Fodd bynnag, os ystyrir y niferoedd a'r dosraniadau o gyfranogwyr a gymeradwywyd yn wreiddiol yn 2008 yn dargedau:

- Rhagorodd y rhaglen yn sylweddol ar y targedau hynny o ran nifer (ac roedd yn agos at gyflawni'r niferoedd terfynol a ragwelwyd)
- Ond ni fodlonwyd y disgwyliadau cychwynnol o ran dosraniad y cyfranogwyr ar draws gwahanol grwpiau demograffig-gymdeithasol a pharhaodd hyn i raddau helaeth hyd at

ddiwedd y rhaglen.Yn ariannol, llwyddodd rhaglen ReAct i weithredu o fewn ei chyllideb gymeradwy (£76 miliwn).

### Effaith ar unigolion di-waith

3.4 Sylwodd y gwerthusiad bod y rhaglen wedi esgor ar ystod eang o fanteision i unigolion o ran cymwysterau a sgiliau 'caled' a 'meddal' a'r tebygolrwydd o ddychwelyd i'r byd gwaith. Roedd enillion o ran agwedd a chymhelliant yn gyffredin, ynghyd â hyder gwell a lefelau uchel o foddhad. Gwerthfawrogwyd cyrsiau byr a galwedigaethol penodol fwyaf.

3.5 Roedd gweithwyr a gafodd eu recriwtio gyda chyllid ERS mewn swyddi cyfrifol ym musnesau eu cyflogwyr gan amlaf. Cyflawnodd cyfran uchel o'r cyfranogwyr hyn gyflogaeth. Ceir dangosyddion sy'n awgrymu bod cynaliadwyedd y gyflogaeth honno yn debyg i'r lefel a gynhelir mewn cyflogaeth Cymru yn gyffredinol.

### Effaith ar gyflogwyr

3.6 Adroddwyd bod y cymorth gyda chyflogau gweithwyr yn fantais sylweddol. Adroddodd cyflogwyr am ystod eang o fanteision i gyflogwyr o ran cael gweithwyr medrus sydd wedi eu cymell, a arweiniodd at fanteision i'r busnes, megis gwell capasiti ac effeithlonrwydd.

3.7 Adroddodd y mwyafrif o'r cyflogwyr fod y Gefnogaeth Hyfforddiant i Gyflogwyr wedi eu gwneud yn fwy tebygol o fuddsoddi wedyn mewn hyfforddiant yn sgil eu hymgysylltiad â ReAct.

### Themâu trawsbynciol Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru (WEFO)

3.8 Mae'r gwerthusiad yn dangos na fodlonwyd y targedau i gynnwys grwpiau demograffig-gymdeithasol penodol sawl gwaith (ond, fel y nodir uchod, mae hyn yn bennaf oherwydd effaith y galw, yn hytrach na methiant y polisi neu'r weithdrefn).

3.9 Bu ymdrech helaeth gan reolwyr ReAct i hyrwyddo gwaith gwella neu lunio polisïau cyflogwyr ar gyfer Cynaliadwyedd Amgylcheddol a Chyfle Cyfartal. Roedd hyn yn cynnwys rhoi sylw mawr i godi ymwybyddiaeth cyflogwyr o bwysigrwydd cael polisïau a gweithdrefnau systematig ar y materion hyn yn y gweithle. Mae cofnodion cronfeydd data a data o'r arolwg cyflogwyr yn awgrymu, fodd bynnag, mai lleiafrifoedd bach yn unig a gyflwynodd bolisïau newydd neu a newidiodd bolisïau a oedd eisoes ar gael er gwell.

### Y Gymraeg

3.10 Roedd camau i gefnogi'r Gymraeg yn ymatebol i alw yn hytrach na bod yn amlwg yn rhagweithiol. Ychydig o alw a gafwyd am ddarparu hyfforddiant ar y Gymraeg neu drwy gyfrwng y Gymraeg, ond pan oedd galw, fe'i bodlonwyd.

### Partneriaeth

3.11 Roedd yr holl bartneriaid yn ystyried bod partneriaeth y rhaglen rhwng tîm ReAct Llywodraeth Cymru, y Ganolfan Byd Gwaith, Gyrfa Cymru a darparwyr hyfforddiant yn hynod effeithiol ar y cyfan ac yn gweithio'n dda. Rhoddwyd gwerth hefyd ar swyddogaeth Cyngres yr Undebau Llafur Cymru a'r Cynghorau Sgiliau Sector.

### Gweinyddu

3.12 Nodwyd nifer o faterion gweinyddol gan swyddogion llywodraeth a phartneriaid cyflawni ReAct. Roedd y rhain yn ymwneud â:

- Y nifer uchel o ddata a oedd yn ofynnol ar gyfer rheoliadau ESF.
- Gwallau ymgeiswyr wrth lenwi ffurflenni.

- Gofynion gwaith papur ailadroddus.
- Cyflymdra prosesu rhai o'r ceisiadau.

3.13 Fodd bynnag, ar y cyfan, cydnabuwyd bod angen 'baich y gwaith papur' i fodloni gofynion tystiolaeth cyllid cyhoeddus ac ni ystyriwyd y bu materion gweinyddol yn rhwystr mawr i effeithiolrwydd ReAct.

**Arferion gorau**

3.14 Canfuwyd bod ReAct yn llwyddiannus mewn ystod o feysydd:

- Llwyddodd y rhaglen i gynnal lefel uchel o gymorth gan Lywodraeth Cymru a'i phartneriaid.
- Roedd y bartneriaeth a oedd yn rhan o'r gwaith cyflenwi yn llwyddiannus.
- Roedd y dull o hyfforddi yn seiliedig ar alw, a oedd yn cynnwys unigolion (gydag arweiniad) a chyflogwyr yn nodi pa hyfforddiant fydd ei angen arnynt, yn effeithiol.
- Llwyddodd tîm rheoli llai yn Llywodraeth Cymru i reoli gweinyddiad a gwariant y rhaglen yn effeithiol.
- Arweiniodd y gostyngiad yn lefel y grant hyfforddi a gyflwynwyd yn 2011 at gynnydd yn y gwerth am arian yn hytrach na gostyngiad yn ansawdd yr hyfforddiant.

**Dadansoddiad o gostau a manteision**

3.15 Adolygodd y gwerthusiad tymor canolig yr effaith o ran canlyniadau cyflogaeth a chyfranogiad mewn hyfforddiant trwy gymharu profiadau'r bobl a gymerodd ran yn rhaglen ReAct â phrofiadau unigolion a fu mewn sefyllfaoedd tebyg ond heb gael cefnogaeth ReAct.

3.16 Canfu'r asesiad hwn fod y rhai a gafodd eu cyflogi gan ddefnyddio cyllid ERS fel rheol yr un mor debygol o gael eu cyflogi â'r rhai na fu'n rhan o'r rhaglen ReAct. Gwelwyd bod cymorth ReAct wedi cael effaith fwy amlwg ar gyfleoedd ymatebwyr o gael hyd i a chadw cyflogaeth arall ar naill ben y sbectrwm oedran ac mewn busnesau bach (y rhai sy'n cyflogi llai na 10 o bobl).

3.17 O ran cymryd rhan mewn hyfforddiant trwy gyllid ReAct, cafwyd bod diffrwythedd yn isel. Mae tystiolaeth yn awgrymu y bydd y cynnydd yn enillion cyfranogwyr ReAct yn y dyfodol yn sgil cymwysterau a gafwyd trwy'r rhaglen, yn fwy na chost y rhaglen.

## 4. Argymhellion

4.1 Gweithredwyd ar yr argymhellion a nodwyd yn adroddiad y gwerthusiad tymor canolig, neu, mewn rhai achosion, profwyd nad oedd modd eu gweithredu neu fe'u dilëwyd. Gan gadw'r cyfyngiadau hyn mewn cof, mae argymhellion yn cynnwys:

- Adolygu gweithdrefnau a phrotocolau data a gweinyddol i geisio gwell cysondeb a'u gwneud yn symlach pan fo'n bosibl.
- Ystyried a rhoi methodolegau gwerthuso ar waith, sy'n dangos effeithiau yn glir.
- Parhau i archwilio ac yna defnyddio hyblygrwydd yn y dull gweithredu i fanteisio i'r eithaf ar allu'r rhaglen i gyflawni amcanion penodol a chynyddu ychwaneged y rhaglen .
- Cryfhau'r gallu i ddylanwadu ar ddulliau cyflogwyr o sicrhau cyfle cyfartal a chynaliadwyedd amgylcheddol.

Awduron yr Adroddiad: BMG Research

Adroddiad Ymchwil Llawn: Roe, P. (2015). *Gwerthusiad o'r Rhaglen ReAct 2008-2014*. Caerdydd: Llywodraeth Cymru, GSR adroddiad rhif 46/2016.

Ar gael yn: http://llyw.cymru/statistics-and-research/evaluation-redundancy-action-programme/?lang=cy

Mae'r safbwyntiau a fynegwyd yn yr adroddiad hwn yn perthyn i'r ymchwilwyr ac nid o reidrwydd Llywodraeth Cymru

I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â:
Faye Gracey
Yr Is-adran Ymchwil Gymdeithasol a Gwybodaeth
Gwasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddi
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ

E-bost: faye.gracey@wales.gsi.gov.uk

OGL © Hawlfraint y Goron 2016 ISBN digidol 978-1-4734-7086-6